COFNODION NAWFED CYNHADLEDD FLYNYDDOL A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES

A Gynhaliwyd yn Venue Cymru, Llandudno, ddydd Iau 3 Ebrill 2025

Presennol:

Swyddogion - Nia Parry (Llywydd), Stephen Nicholls (Cadeirydd), Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Nicola Dagg (Clerc/Ysgrifennydd y Cwmni), Salamatu Fada (Is-gadeirydd) (5)

Aelodau Unigol - Mark Baines, Cath Hicks, John Graystone, Benjamin Lewis, Cathrine Clark, Dawn Rogers, Emily Carter, James Berry, Kristian Losztyn, Martyn Reed, Michelle Kerswell, Rachel Burton, Sam Emmett, Tim Palazon, Gaynor Hanlon, Sarah O'Connell Jones, Sylvia Greenaway a Victory Ezeofor (18)

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr y Canghennau

Aelodau Unigol a/neu Gynrychiolwyr Sefydliadau Cysylltiedig neu Sefydliadau sy'n Bartneriaid – Jo Rees (TUC Cymru) (1)

Eraill yn bresennol - Anthony Phillips (Archwilydd, Cwmni Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle Cyf. (Cofnod 5 yn unig); Iola Llwyd (cyfieithydd ar y pryd) (2)

Ymddiheuriadau:

Chris Franks, Judith Evans, Marilyn Thomas (Cangen Caerffili), Janet Beauchamp, Alex Lloyd, Adrian Heathfield, Jan Tiley, Lisa O'Connor, Susan Roberts, Jenni Jones-Annetts, Nicole Kinnaird, Julie Roberts, Dr, Clare Glennan, Siôn Aled Owens a Bill Griffiths (Cangen Llanelli) (15)

Eitem	CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2025
1.	**Croeso a chyflwyniad i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2025** Agorodd Nia Parry y cyfarfod yn ffurfiol gan estyn croeso cynnes a mynegi gwerthfawrogiad i'r holl aelodau a'r mynychwyr a oedd yn bresennol yn y digwyddiad yn Venue Cymru, Llandudno. Amlinellwyd rhywfaint o fanylion

	ymarferol, gan gynnwys cyfeirio at y stondinau arddangos, yn ogystal â'r arddangosfeydd a'r wybodaeth yn arddangos gwaith dysgwyr a gweithgareddau'r sefydliad y gwahoddwyd y mynychwyr i ymweld â hwy a'u harchwilio ar ôl diwedd y cyfarfod.
2.	**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol, a gynhaliwyd yn Theatr Soar, Merthyr Tudful, ar 9 Ebrill 2024.** Roedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd y ddarpariaeth pleidleisio drwy ddirprwy yn y cyfansoddiad yn golygu bod Ysgrifennydd y Cwmni wedi cael 20 pleidlais gan aelodau dilys ymlaen llaw: byddai'r rhain yn cael eu bwrw yn unol â hynny a byddai cyfansymiau terfynol y pleidleisiau yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Cymeradwywyd cofnodion drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Addysg Oedolion Cymru (AOC), a oedd wedi'i gynnal yn Theatr Soar, Merthyr Tudful, ar 9 Ebrill 2024, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir (41 o blaid, neb yn erbyn, a neb yn ymatal).
3.	**Trosolwg y Prif Weithredwr o waith y flwyddyn, 2024/25** Dechreuodd Kathryn Robson drwy groesawu pawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, gan bwysleisio ei fod yn gyfle amserol ac ystyrlon i ddod ynghyd, i fyfyrio ar y cynnydd a'r cyflawniadau a oedd wedi digwydd dros y flwyddyn flaenorol. Diolchodd yn ddiffuant i'r holl staff, tiwtoriaid, aelodau, partneriaid, cyrff ariannu, aelodau'r Cyngor a rhanddeiliaid am eu gwaith caled diysgog, eu hymroddiad a'u hangerdd dros y sefydliad drwy gydol y flwyddyn. Cydnabuwyd ehangder, dyfnder ac amrywiaeth y ddarpariaeth ddysgu yn AOC fel cryfder sylweddol a gwerthfawr, yn ogystal â'i allu i ddiwallu anghenion eang ac amrywiol ei ddysgwyr. Amlygwyd bod 7,500 o ddysgwyr wedi cael eu cynorthwyo yn ystod y flwyddyn academaidd honno ac roedd ymgysylltu cryf yn holl feysydd y ddarpariaeth, o ddysgu anffurfiol yn y gymuned i gymwysterau achrededig, yn amlygu ystod, cyfoeth a chynhwysiant cyrsiau oedd parhau i gynorthwyo â hyder a chynnydd dysgwyr a'u helpu i ddatblygu sgiliau. Nododd Kathryn Robson hefyd sut yr oedd hynny wedi amlygu rhagoriaeth broffesiynol staff yn ogystal â'r creadigrwydd a'u hymroddiad. Dygodd Kathryn Robson sylw at y ffaith fod amrywiaeth o gamau wedi bod ar y gweill drwy gydol y flwyddyn academaidd i gryfhau cyfranogiad dysgwyr a meithrin diwylliant a oedd yn rhoi pwyslais ar ddysgwyr yn gweithredu fel cyd-grewyr a chyfranogwyr gweithredol yn eu profiadau dysgu. Roedd dysgwyr yn

	parhau i lywio gweithgarwch AOC trwy waith Llais y Dysgwyr oedd yn cael ei lywio gan gynllun cynhwysfawr a phwrpasol *Rhaglen Llysgenhadon y Dysgwyr*, datblygiad y *Fframwaith Llais y Dysgwyr* a chynrychiolaeth gref ar draws meysydd llywodraethu, cwricwlwm a chynllunio. Nodwyd bod pwysau ariannol yn bwysau diddiwedd ledled y sector, gan gynnwys y diffyg presennol o £16 miliwn ym maes cyfleoedd dysgu rhan amser i oedolion ledled Cymru. Yn galonogol, roedd Addysg Oedolion Cymru yn parhau i fod yn sefydlog yn ariannol oherwydd llywodraethu cryf, cynllunio cyfrifol, a chadernid ac ymrwymiad yr holl staff. Fel sefydliad, pwysleisiwyd bod AOC yn cynnal dull blaengar â buddsoddiad diweddar mewn Paneli Solar yn Iard y Cowper ac roedd camau gweithredu i gryfhau seiberddiogelwch a diogelwch adeiladau ar waith i sicrhau bod sefyllfa'r sefydliad yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn gadarn. Roedd Estyn wedi'u croesawu'n ddiweddar ar gyfer arolygiad o'r sefydliad cyfan, a chafwyd sylwadau calonogol ac adeiladol yn sgil hynny. Byddai'r adroddiad terfynol ar gael ym mis Mehefin 2025. Roedd gwaith AOC yn parhau i ganolbwyntio ar a chyd-fynd â blaenoriaethau allweddol y sector a safonau Estyn gan sicrhau bod rhagoriaeth ac ymrwymiad i anghenion dysgwyr yn parhau'n gyson. Nodwyd newidiadau i'r strwythur llywodraethu hefyd, ac roedd cyfnod Dr. John Graystone fel Cadeirydd wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2025. Mynegwyd gwerthfawrogiad dwfn iddo am arwain yn wych a chynnig arweiniad yn feddylgar, ac am ei benderfynoldeb diysgog, oedd wedi gwneud cyfraniad parhaol at y sefydliad a'r sector dysgu oedolion ehangach. Croesawyd Dr. Stephen Nicholls yn gynnes fel Cadeirydd newydd Addysg Oedolion Cymru. Fe wnaeth y cyfarfod dderbyn adroddiad y Prif Weithredwr yn ffurfiol.
4.	**Adroddiad y Cadeirydd ar y flwyddyn flaenorol** Estynnodd Stephen Nicholls ei ddiolchiadau dwfn gan nodi ei bod yn fraint ac yn anrhydedd fawr bod yn Gadeirydd AOC. Parhaodd drwy bwysleisio, ar ran ei hun a'r sefydliad cyfan, werthfawrogiad diffuant a diolchgarwch eang i John Graystone, y Cadeirydd yr oedd ei gyfnod wedi dirwyn i ben ac unigolyn uchel ei barch, a gafodd ei anrhydeddu â diolch diffuant am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth ac ymroddiad. Nododd y Cadeirydd ystod o newidiadau gwleidyddol oedd yn llywio'r dirwedd addysg oedolion yng Nghymru ar y pryd, gan gynnwys y llywodraeth Lafur newydd yn San Steffan, penodi'r Prif Weinidog benywaidd gyntaf yng Nghymru yn ogystal â phenodi Vicki Howells yn Weinidog Addysg Bellach ac Uwch ym mis Medi 2024. Cyfeiriodd at sefydlu'r corff rheoleiddion newydd (Medr) a phwysleisio y gallai etholiadau'r Senedd a fyddai'n cael ei gynnal yn 2026 achosi

	rhagor o newidiadau. Felly, roedd yn hanfodol i'r sefydliad barhau i fod yn amlwg ac yn ddylanwadol ar draws y sector a'r sbectrwm gwleidyddol, a phwysleisiodd ei ymrwymiad i sicrhau bod blaenoriaethau AOC yn cael eu cydnabod, a bod llais y sefydliad yn cael ei glywed. Dywedodd y Cadeirydd fod y sefydliad wedi cael blwyddyn academaidd lwyddiannus iawn yn 2023/24, yn cynnwys mwy o ymgysylltu a dysgwyr a sefyllfa ariannol y sefydliad a oedd yn gryf iawn ar y pryd. Roedd sawl rhanbarth wedi cynyddu'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb gan sicrhau darpariaeth fwy effeithlon a chytbwys rhwng cyrsiau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Pwysleisiodd hefyd statws AOC fel y darparwr dysgu oedolion yn y gymuned fwyaf yng Nghymru, yn cynnig cymorth i'r ystod ehangaf bosibl o ddysgwyr i wella amgylchiadau personol, cymdeithasol ac economaidd - roedd hynny'n parhau i fod yn ffocws hollbwysig i'r sefydliad. Roedd hyn yn amlwg drwy amrywiaeth ac ehangder cyfleoedd y cwricwlwm yr oedd y sefydliad yn ei gynnig ledled Cymru, er enghraifft, gosod blodau, crefftau, llythrennedd a rhifedd sylfaenol a chymwysterau adeiladu a gwaith ieuenctid. Byddai hyblygrwydd a'r gallu i addasu yn hanfodol ar gyfer llywio unrhyw heriau gwleidyddol yn y dyfodol a datblygu technoleg AI: yn sgil hynny, roedd ffocws cynyddol ar risgiau Seiberddiogelwch ac ehangu mesurau cynaliadwyedd mwy datblygedig. Cydnabuwyd hefyd waith AOC tuag at gyflawni'r nodau a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, trwy ei ymdrechion rheolaidd i ddatblygu darpariaeth yn y Gymraeg, y ffocws ar gyflawniadau oedd gysylltiedig â'r cynllun gweithredu gwrth-hiliol a lleihau ôl troed carbon AOC i gynorthwyo i greu Cymru fwy llewyrchus. Dygodd y Cadeirydd sylw hefyd at nod y corff llywodraethu i wella ei strwythurau llywodraethu trwy gyfres o newidiadau i gyfansoddiad AOC a chyfansoddiad y Cyngor. Gorffennodd drwy ddwyn sylw at y Cynllun Strategol drafft 2025-2028 (yr oedd ymgynghoriad yn ei gylch yn mynd rhagddo ar y pryd) a gwahoddodd yr aelodau i adolygu'r ddogfen a chynorthwyo ag ymdrechion i gyflawni canlyniadau cryfach i'r sefydliad. Diolchwyd yn ddiffuant i Kathryn Robson, aelodau'r Cyngor, gwirfoddolwyr, y dysgwyr a'r staff ehangach oedd yn parhau i sicrhau bod AOC yn sefydliad mor amrywiol, unigryw a llwyddiannus i fod yn rhan ohono. Fe wnaeth y cyfarfod dderbyn adroddiad y Cadeirydd yn ffurfiol.
5.	**Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales 2023/24 ynghyd â Rhestr o aelodau'r Cyngor**

	Cyflwynodd Cadeirydd y Cyngor (a chyn Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau) grynodeb o'r datganiadau ariannol a oedd wedi'u hanfod gyda phapurau'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd Adroddiad a Datganiadau Ariannol 2023/24, wedi'u harchwilio'n llawn a'u cymeradwyo gan y Cyngor, ar gael ar wefan y Sefydliad. Roedd gwarged gweithredol o £299,000 wedi'i gyflawni cyn elw pensiwn yn addasiadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd gan AOC asedau hylifol iach, cronfeydd arian parod cryf a buddsoddiadau tymor byr cadarn a symiau yn cyfateb i arian parod ac roedd hynny'n adlewyrchu cryfder ariannol y sefydliad ar y pryd a'r ffaith ei fod yn barod am y flwyddyn ddilynol. Roedd llwyddo i gyflawni pob un o'r 6 amcan ariannol a oedd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru yn dwyn sylw ymhellach at y cyflawniadau sefydliadol arwyddocaol a'r canlyniadau a gwblhawyd drwy gydol blwyddyn academaidd 2023/24. Cadarnhaodd Anthony Phillips ar ran Cwmni Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle Cyf. fod adroddiad eu harchwilwyr, fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, yn ddiamod ac nad oedd unrhyw wallau perthnasol yn y cyfrifon. Dygwyd sylw at y Rhestr o Aelodau'r Cyngor fel y gellid cyfeirio ati ac roedd y rhestr yn amlygu enwau'r aelodau a oedd yn gwasanaethu ar y Cyngor yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24. Roedd y canlynol yn rhai o'r newidiadau nodedig oedd wedi digwydd yn ystod y misoedd ers hynny; ymddiswyddiadau John Graystone, (fel Cadeirydd), Chris Franks (Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio) a Cathy Clark (Dysgwr-Lywodraethwr), a phenodi Jo Rees (TUC Cymru) ac Emily Carter (Dysgwr-Lywodraethwr). Diolchodd Nia Parry i'r aelodau am eu cyfraniadau nodedig a'u gwaith clodwiw. **Cynigiwyd felly** y dylid derbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a oedd wedi dod i ben ar 31 Gorffennaf 2024. Cafodd hyn ei gymeradwyo, â 41 pleidlais o blaid, neb yn erbyn, a neb yn ymatal. Gadawodd Anthony Phillips y cyfarfod ar yr adeg hon.
6.	**Ailbenodi Cwmni Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle Cyf. fel archwilwyr ar gyfer ymarfer blwyddyn ariannol 2024/25** Fe wnaeth Victory Ezeofor, Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, ddwyn sylw (fel rhan o'u cylch gwaith) bod y Pwyllgor Archwilio yn cynnig goruchwyliaeth a gwerthusiadau blynyddol o archwiliadau mewnol ac allanol y Sefydliad, yn craffu ar Gofrestr Risgiau AOC ac yn monitro gweithgareddau'r Uwch Dîm Rheoli. Yna cyflwynodd yr eitem a chanmolodd ddull gweithio Cwmni Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle drwy gydol y flwyddyn a oedd wedi dod i ben ar 31 Gorffennaf 2024.

	Fel y nodwyd yn flaenorol, yn sgil y broses archwilio allanol, cafwyd barn ddiamod gan yr archwilwyr, yn amlygu ymrwymiad cryf AOC i lywodraethu, rheoli risgiau a safonau rheoleiddio effeithiol. O ganlyniad i'r archwiliad hwn, roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael sicrwydd ynghylch y safonau uchel parhaus o ran rheolaethau ac allbynnau yr oedd y sefydliad yn ei amlygu. Fodd bynnag, pwysleisiwyd, er bod mesurau cynaliadwy a chydnerthedd hirdymor yn cael eu hatgyfnerthu'n ddiddiwedd trwy gamau gweithredu pwrpasol, y gallai heriau annisgwyl a risgiau cudd ddod i'r amlwg ymhen amser. Gan gydnabod eu hymrwymiad llwyddiannus a'u gwaith gwerthfawr, **cynigiwyd** y dylid Ailbenodi Cwmni Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle ar gyfer y flwyddyn ariannol a fyddai'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2025. Cafodd hyn ei gymeradwyo, â 41 pleidlais o blaid, neb yn erbyn, a neb yn ymatal.
7.	**Adroddiadau gan gynrychiolwyr y sefydliad yng nghyfarfodydd tri Llys Prifysgol** Roedd adroddiadau ysgrifenedig byr eisoes wedi'u hanfod gyda'r papurau ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd yr eitem yn cyfleu gwybodaeth i'r aelodau yn deillio o statws y Sefydliad yn Llysoedd prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe. Fe wnaeth y CCB dderbyn yr adroddiadau oedd wedi'u cyflwyno.
8.	**Penderfyniad Cyffredin i ethol Bernie Davies yn Is-lywydd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales** Penodwyd Mark Baines a Cath Hicks yn gyfrifwyr ar gyfer y gweithdrefnau i bleidleisio ar y cynnig. Roedd y system bleidleisio trwy ddirprwy yn y cyfansoddiad yn golygu bod yna 20 pleidlais ychwanegol a oedd wedi'u derbyn ymlaen llaw gan Ysgrifennydd y Cwmni. Penodwyd y Cadeirydd yn ddirprwy ar ran 19 ohonynt a byddai 1 bleidlais yn cael ei bwrw gan ddirprwy enwol o blith yr aelodau oedd yn bresennol Cynigiwyd y penderfyniad cyffredin gan Victory Ezeofor (Aelod o'r Cyngor) a nododd y profiad helaeth ym meysydd amrywiaeth, entrepreneuriaeth ac ymgysylltu â chymunedau y byddai Bernie Davies yn eu cyfrannu trwy rôl yr Is-lywydd. Dygodd sylw hefyd y ffaith bod Bernie Davies eisoes wedi amlygu rhinweddau cryf fel llysgennad drwy gyfranogi mewn troeon dysgu yn narpariaeth Addysg Oedolion Cymru, hyrwyddo Addysg Oedolion Cymru drwy

	amrywiaeth o rwydweithiau personol a phroffesiynol a dadlau'n gryf dros genhadaeth y sefydliad a maes dysgu gydol oes. *Cynigiwyd gan: Victory Ezeofor, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru* *Eiliwyd gan: Dr. Salamatu Fada, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru* **Cynigiwyd felly** y dylai'r penderfyniad i benodi Bernie Davies, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor, gael ei gymeradwyo a'i gytuno i ddod i rym ar 26 Tachwedd 2024. **Cymeradwywyd y penderfyniad.** **O Blaid: 40** **Yn erbyn: 0** **Ymatal: 1**
9.	**Penderfyniad Arbennig ynghylch Gwelliannau Cyfansoddiadol (Penderfyniad Cyfansoddiadol Arbennig A)** Etholwyd Mark Baines a Cath Hicks yn gyfrifwyr ar gyfer y gweithdrefnau i bleidleisio ar y cynnig. Roedd y system bleidleisio trwy ddirprwy yn y cyfansoddiad yn golygu bod yna 20 pleidlais ychwanegol a oedd wedi'u derbyn ymlaen llaw gan Ysgrifennydd y Cwmni. Penodwyd y Cadeirydd yn ddirprwy ar ran 19 ohonynt a byddai 1 bleidlais yn cael ei bwrw gan ddirprwy enwol o blith yr aelodau oedd yn bresennol Cyflwynwyd y penderfyniad arbennig ynghylch gwelliannau cyfansoddiadol i ***Erthyglau Cymdeithasu a Rheolau Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau Addysg Oedolion Cymru*** gan Cathy Clark (Dysgwr-Lywodraethwr). Nodwyd mai nod y gwelliannau oedd gwella dull llywodraethu Addysg Oedolion Cymru, gwella effeithlonrwydd corff llywodraethu'r sefydliad ac adlewyrchu'n well sut oedd aelodau'n ymgysylltu ag Addysg Oedolion Cymru, yn unol ag anghenion y sefydliad ar y pryd. **Cynigiwyd felly** y dylai'r rheoliadau a nodir yn y dogfennau a gyflwynwyd i'r cyfarfod gael eu mabwysiadu fel erthyglau cymdeithasu a rheolau sefydlog, rheolau a gweithdrefnau Addysg Oedolion Cymru yn lle'r holl erthyglau cymdeithasu a rheolau sefydlog, rheolau a gweithdrefnau oedd yn eu lle ar y pryd, ac y dylent ddod i rym yn syth. *Cynigiwyd gan: Cathy Clark, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru* *Eiliwyd gan: Jo Rees, ar ran Cyngor Addysg Oedolion Cymru*

	Cymeradwywyd y penderfyniad, yn unol â'r mwyafrif gofynnol o 75%. **O Blaid: 40** **Yn erbyn: 0** **Ymatal: 1**
10.	**Diolch a Sylwadau Cloi** Fe wnaeth Nia Parry, Llywydd Addysg Oedolion Cymru, ddiolch i bawb am fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac ailadroddodd y gwerthfawrogiad a fynegwyd gan y Cadeirydd, am y cymorth diddiwedd gan y dysgwr, yr aelodau, y staff, y Cyngor, y tiwtoriaid a'r gwirfoddolwyr.